Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2013**

Amser y cyfarfod:
13:30

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Agenda

(141)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Adolygu'r cyllid sydd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru : Adroddiad cyntaf (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Anghenion Dysgu Ychwanegol - i'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig**

**5 Dadl: Y Papur Gwyn ynghylch Tai - Y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r Papur Gwyn (60 munud)**

NDM5271 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr heriau sylweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a sefydliadau

eraill ar hyn o bryd i helpu pobl i fyw mewn tai gweddus a fforddiadwy;

2. Yn nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu'r camau a amlinellir yn y Papur Gwyn ynghylch Tai a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei thargedau o ran y cyflenwad tai fforddiadwy a sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto;

3. Yn cydnabod rhaglen Llywodraeth Cymru i gyflenwi mwy o dai a chymryd camau eraill a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Gellir gweld y Papur Gwyn ynghylch Tai "Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell" drwy ddilyn y linc ganlynol:
http://cymru.gov.uk/docs/desh/consultation/120521whitepapercy.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1 dileu popeth ar ôl 'sylweddol' a rhoi yn ei le 'sy'n wynebu cyflenwyr tai a sefydliadau eraill yng Nghymru ers datganoli i helpu pobl i fyw mewn tai gweddus a fforddiadwy;'

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn mynegi pryder am fethiant Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r cynllun NewBuy Cymru, sy'n cosbi'r rheini sy'n prynu ty am y tro cyntaf yng Nghymru ac yn rhoi pobl sy'n prynu tai ac yn adeiladu tai o dan anfantais yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr.

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi'r amcangyfrif gan Brif Weinidog Cymru bod angen 20,000 i 25,000 yn ychwanegol o gartrefi un a dwy ystafell wely i liniaru ar effeithiau'r newidiadau i'r budd-dal tai.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu wrth y diffyg cynnydd gydag agweddau anneddfwriaethol y Papur Gwyn ynghylch Tai a'r nifer bychan o dai newydd sydd wedi cael eu hadeiladu yng Nghymru;

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i sefydlu cynllun integredig i fynd i'r afael â mater cartrefi gwag yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu Strategaeth Cartrefi Gwag genedlaethol ar gyfer Cymru.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r cynnydd sydd wedi'i wneud drwy'r cynllun achredu cenedlaethol 'Cynllun Achredu Landlordiaid Cymru' i gydnabod landlordiaid da a gwella'r cyflenwad o lety o ansawdd da ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu'r gwaith o drwyddedu asiantaethau gosod tai yng ngoleuni'r cynnydd o 9% mewn cwynion am asiantaethau gosod tai oddi wrth landlordiaid a thenantiaid yn 2012.

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 3, dileu popeth ar ôl 'cydnabod' a rhoi yn ei le 'angen Llywodraeth Cymru i gyflwyno Rhaglen Marchnad Gyfan i gyflenwi mwy o gartrefi a chymryd camau eraill a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.'

**Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Arolwg Tai Cymru i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth am broffil cartrefi a'r stoc tai yng Nghymru, i helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a monitro polisïau tai Llywodraeth Cymru.

**Gwelliant 9 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prynwyr tro cyntaf yn gallu manteisio ar gynlluniau priodol sydd wedi'u sefydlu i'w helpu i allu fforddio cartrefi.

**6 Dadl: Gofal Sylfaenol a'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal (60 munud)**

**NDM5272 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod rôl hanfodol gofal sylfaenol o ran llunio a chyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn**:

**Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru ar gyflwyno moratorium ar ddatblygu cynlluniau gofal sylfaenol newydd.

**Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r cynnig gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu am dimau o weithwyr meddygol proffesiynol o dan arweiniad meddygon teulu i ddarparu gofal drwy'r dydd a'r nos i rai cleifion sydd â chyflyrau cronig difrifol.

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod gwasanaeth gofal cymdeithasol effeithiol yn gwneud cyfraniad pwysig at sicrhau bod pobl yn gallu rheoli cyflyrau cronig yn y gymuned ac yn gresynu wrth y rhwystrau artiffisial sy'n parhau rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd recriwtio a chadw meddygon ar gyfer darparu gofal sylfaenol mewn ardaloedd gwledig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro a chyhoeddi nifer y meddygon sy'n cael eu recriwtio drwy'r ymgyrch Gweithio dros Gymru.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder am brinder deintyddion y GIG yng Nghymru sy'n derbyn cleifion newydd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad o nifer y bobl nad ydynt yn gallu cael gafael ar ddeintydd y GIG yn eu hardal, i ganfod lle mae problemau lleol yn bodoli.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 26 Mehefin 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 20 Mehefin 2013 i'w hateb ar 25 Mehefin 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Ken Skates (De Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r diwydiant ynni niwclear yng Nghymru? OAQ(4)1148(FM)

2. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am farchnad allforio Cymru? OAQ(4)1140(FM)

3. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)1151(FM)

4. Elin Jones (Ceredigion): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu economi gorllewin Cymru? OAQ(4)1142(FM)W

5. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): A wnaiff y Gweinidog nodi pa faterion a drafodwyd pan gyfarfu ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? OAQ(4)1154(FM)W

6. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dargedau amseroedd aros y GIG ar gyfer Powys? OAQ(4)1146(FM)

7. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rheswm y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol rhoi cymhorthdal o dros £6 miliwn y flwyddyn ar gyfer ffioedd wrth giât y llosgydd ar gyfer Prosiect Gwyrdd? OAQ(4)1145(FM)

8. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i newid y rhyddhad ardrethi busnes? OAQ(4)1147(FM)

9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i leihau nifer y bobl sy'n ysmygu yng Nghymru? OAQ(4)1149(FM)

**10. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am iechyd anifeiliaid yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)1152(FM)R

**11. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau sawl adeilad rhestredig Gradd 1 sydd ar gael yng Nghymru? OAQ(4)1141(FM)

**12. Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf? OAQ(4)1139(FM)

**13. Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ar Gymru? OAQ(4)1150(FM)

**14. Gwyn Price (Islwyn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu twf economaidd yng Nghymru? OAQ(4)1144(FM)

**15. Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am lefel y gwariant ar hyn o bryd ar y GIG yng Nghymru? OAQ(4)1143(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 2 Gorffennaf a dydd Mercher 3 Gorffennaf 2013

Dydd Mawrth 9 Gorffennaf a dydd Mercher 10 Gorffennaf 2013

Dydd Mawrth 16 Gorffennaf a dydd Mercher 17 Gorffennaf 2013

*****************************************************************

Dydd Mawrth 2 Gorffennaf 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cyflwyno Bil Addysg (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cymwysterau yng Nghymru (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 i drin Bil a gaiff ei alw'n y Bil Sector Amaethyddiaeth (Cymru) fel Bil Brys y Llywodraeth (15 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.98(ii) i gytuno ar amserlen ar gyfer y Bil a gaiff ei alw'n Fil y Sector Amaethyddol (Cymru) (5 munud)
- Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Diwygiadau i Ddeddf Addysg 1996) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) (120 munud)

  "Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

  Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig:

  Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.47."

Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig yng Nghymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Horizon 2020: Cyfnod 2 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Geidwadwyr Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Nick Ramsay (Mynwy) (30 munud)

Dydd Mawrth 9 Gorffennaf 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Cymunedau Mwy Diogel - Y wybodaeth ddiweddaraf am Bennod 7 o'r Rhaglen Lywodraethu (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Gadael ceffylau a merlod a phori anghyfreithlon - Ymateb i'r ymgynghoriad a chamau nesaf (30 munud)

Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud):

- Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 (Cymru) 2013
- Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygiad i Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gofal (15 munud)
- Dadl: Y GIG yng Nghymru - Dysgu o Ymchwiliad Francis (60 munud)

Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Cartrefi Symudol (Cymru) (60 munud)

  "Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

  Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

  Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo Bil Cartrefi Symudol (Cymru) (5 munud)"
- Dadl Fer - Peter Black (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth (Cymru) 2013 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol (15 munud)
- Dadl: Y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2013-14 (30 munud)

Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Ddeddfu a'r Eglwys yng Nghymru (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer - Ken Skates (De Clwyd) (30 munud)